

## Cofion a Chyfarchion

- Anfonwn ein cofion heddiw at Haf Williams a Megan Evans (Llansannan) yn Ysbyty Glan Clwyd, Dilys Vaughan (Saron) yn yr Inffirmari, a Gwyneth Rawson (Llanfair) yn Ysbyty Llandudno. Cyflwynwn y tair i ofal tyner ein Duw gan weddio y byddant yn adnabod daioni Duw yn eu hamgylchynu. Da yw deall fod Philip Owen (Llanefydd), a Ceinlys Jones a John G. Jones (Llansannan) wedi cael dod adre ar ôl cyfnod yn yr ysbyty. Dymunwn adferiad iechyd buan iawn i'r tri a phawb arall o'r Ofalaeth sydd heb fod yn dda y dyddiau hyn, gan hyderu y byddant oll yn profi daioni'r Arglwydd yn eu cynnal ac yn eu hiacháu.
- Cyflwynwn ein ffrindiau sydd mewn cartrefi gofal hefyd i ofal Duw – Mrs Bessie Owens, Cefn Berain (Plas Llanrhaeadr); Mrs Morfudd Williams, Henllan (Tŷ Cariad, Abergele); Miss W J Roberts a Mrs Edith Maloney, Henllan (Yr Hen Ddeondy, Llanellwylly); Mrs Gwenllian Jones, Henllan (Plas Eleri); Mrs Elsie May Edwards, Llansannan a Mrs Kitty Parry, Llanefydd (Preswylfa, Y Rhyl). Hyderwn eu bod yn profi gofal a grym ein gweddïau drostynt.
- Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Berwyn Evans (Llansannan) fydd yn dathlu penblwydd arbennig yn ystod yr wythnos!

## I ddod

- **SASIWN PLANT** – Cynhelir y Sasiwn Plant yng Nghapel Groes pnawn Sul, Mai 20fed am 2.00 o dan arweiniad Mrs Mair Beech Williams, gan ddefnyddio Detholiad 2017-18. Bydd y casgliad yn mynd tuag at Ymchwil Canser y Fron a bydd paned a chacen i ddilyn y cyfarfod.
- **CYMANFA GANU ANNIBYNWYR DYFFRYN CLWYD** dydd Sul, Mehefin 10fed yng Nghapel Llandegla am 2.30. Cymanfa o emynau plant ac oedolion o Ddetholiad 2017-18. Arweinydd: Dafydd Watson, Mynydd Isa. Croeso i bawb.
- **'DISGLAIR'** – Penwythnos i ferched o bob oed yn y Bala ar Mehefin 15fed-16eg. Siaradwyr: Sian Wyn Rees, Cath Woolridge ac Ali Roberts. Cofrestrwch ar-lein ar wefan [colegybala.org](http://colegybala.org) neu cysylltwch â'r Coleg i dderbyn copi papur o'r ffurflen: 01678 520565 / [colegybala@ebcpcw.org.uk](mailto:colegybala@ebcpcw.org.uk).
- **RHAI O GYRSIAU HAF COLEG Y BALA:**
  - ⇒ **Cwrs Ieuenticid (i flynyddoedd 7 – 10):** Gorffennaf 30ain – Awst 3ydd
  - ⇒ **Anhrefn Awst (i blant 8-12 oed):** Awst 13eg – 16eg
  - ⇒ **Souled Out (15+):** Awst 18fed – 23ain*Cofiwch bod £20 o ostyngiad i bob unigolyn mewn addysg sydd am fynd ar un o'r cyrsiau, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwysi Bro Aled. Mae angen llenwi ffurflen i archebu lle, a'i hanfon ynghyd â blaendâl o £10 i Goleg y Bala mor fuan ag sydd bosibl.*



## Llais Bro Aled

Dydd Sul, 6<sup>ed</sup> Mai 2018

Darlleniad y Dydd

2 Brenhinoedd 4:1-7

(BCND tud.340 / BCN tud.311)

[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)

[rhaglendorcas.com](http://rhaglendorcas.com)

[llanw.org](http://llanw.org)

[hyfforddiantdawn.com](http://hyfforddiantdawn.com)

Croeso cynnes iawn i chi unwaith eto i wasanaethau o addoliad ym Mro Aled. Dewch i ni ddod at ein gilydd yn ein capeli ac yn Oedfa'r Fro i addoli Duw'r Goruchaf. Dewch i ni heddiw roi enw Iesu Grist uwchben pob enw arall. Gweddïwn heddiw y bydd Duw yn ei ras yn ein tynnu ni'n agos ato fo, ac yn aeddfedu ein ffydd.

Ydach chi wedi gweld Oliver y sioe gerdd? Dwi ddim y ffan mwyaf o sioeau. Dydw i erioed wedi gallu deall sut mae pawb yn y stori yn gallu cofio geiriau'r caneuon a'r symudiadau. Beth bynnag am hynny. Mae 'na ran enwog o'r stori ble mae Oliver – ar ôl gorffen bwyta – yn mentro cropian at y cogydd a gofyn am ragor o fwyd. Yr ateb ydy'r ymateb cynddeiriog “MORE?!”

Tybed ai dyna sut ydan ni'n teimlo wrth weddio weithiau? Da ni'n teimlo ein bod wedi cael rhyw ychydig gan Dduw ac yn awchu i gael mwy, ond fod gofyn yn codi ofn arnom ni. Neu efallai ein bod yn teimlo ein bod wedi cael cymaint yn barod, nad oes gennym hawl i ofyn am fwy. Neu efallai ein bod wedi colli golwg ar fawredd Duw a beth allai ei roi i ni.

Dewch i ni edrych ar sut oedd Duw yn gweithio ym mywyd un wraig weddw rhyw dair mil o flynyddoedd yn ôl (2 Brenhinoedd 4:1-7). Mae'r ddynes mewn cryn dipyn o drafferth. Mae newydd gollu ei gŵr, a rŵan mae'n ymddangos ei fod wedi gadael dyled sylweddol iddi hi. Fel tâl, mae'r benthyciwr am gymryd ei meibion fel gweision i dalu'r ddyled. Mae'r ddynes yn mynd at Eliseus, proffwyd adnabyddus yr oedd Duw yn gwneud rhyfeddodau trwyddo.

Mae Duw yn ateb angen y ddynes yma trwy yn gyntaf ddangos iddi ei hangen – cyn lleied o olew a llestri oedd ganddi. Tybed, yn ei sefyllfa hi, fase ni wedi teimlo'n annigonol i ofyn am gymorth gan Dduw? Neu hyd yn oed gredu fod o ddim yn talu sylw i'n problemau ni, neu heb y gallu i newid y sefyllfa? Faint o weithiau ydan ni wedi ceisio gwella sefyllfa yn gyntaf cyn gweddio drosti hi? Fe allwn ni bwysu ar Dduw am bob dim. Does dim byd yn rhy fach, mawr, pwysig na dibwys i Dduw. Mae o'n ein caru ni. “Mae'n gwneud llawer iawn mwy na dim y bydden ni'n mentro gofyn amdano na hyd yn oed yn gallu ei ddychmygu!” (Effesiaid 3:21).

Wrth ofyn gan Dduw, rhaid i ni wneud fel roedd Eliseus yn cynghori yn adnod 3: “Dos i fenthyg llestri gan dy gymdogion. Byddi angen casglu cymaint ag y medri o lestri gweigion”. Nid casglu ychydig bach, ond casglu cymaint â phosib. Wrth ofyn yn hy i Dduw, roedd y fendith a gafwyd hefyd yn fawr.

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

Gwion

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma – 6<sup>ed</sup> ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig, a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mercher – 9<sup>fed</sup> ➤ **Torri Syched y dynion** am 7.30 – lleoliad i'w gadarnhau.  
➤ **Torri Syched y merched** – seiat yn Heulfryn am 7.30.
- Iau – 10<sup>fed</sup> ➤ **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.  
➤ **CIC +** (Cyfle ar gyfer pobl ifanc bl. 10+ i dyfu fel Cristnogion) ym Mhreswylfa, Cefn Meiriadog am 5.00.  
➤ **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.00.
- Gwener – 11<sup>eg</sup> ➤ **Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cyfarfod yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan. Gwaith yr Henaduriaeth am 4.30, a Chyfarfod Cyhoeddus am 6.00 i werthfawrogi gwaith cwrs plant ac oedolion yr Ysgol Sul. **SYLWCH** – Ni fydd y Pwyllgor Gwaith yn cyfarfod.
- Sadwrn – 12<sup>fed</sup> ➤ **Rhwydwaith Merched yr Annibynwyr** yn cyfarfod yn Ysgoldy Llanuwchllyn o 10.00 – 12.30. Y wraig wadd fydd Elenid Jones a bydd yn siarad am y Lloches i Ferched yn Antananarivo, Madagasgar. Croeso i bawb.
- Sul nesaf – 13<sup>eg</sup> ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Eryl Davies, a bydd Gwion yn pregethu.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 6<sup>ed</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Mawrth – 8<sup>fed</sup> ➤ Cyfle am ginio a sgwrs yn Ffestri Cefn Meiriadog am 12.15. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf – 13<sup>eg</sup> ➤ Cynhelir Oedfa Cymorth Cristnogol yn Llanfair am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn dilyn am 11.00. Cynhelir Gwasanaeth Cymorth Cristnogol yng Nghefn Meiriadog am 10.30 – *mwy o fanylion i ddilyn.*

### Henllan a Groes

- Sul yma – 6<sup>ed</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.
- Sul nesaf – 13<sup>eg</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 a bydd Ysgol Sul yno am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 a bydd Gwasanaeth Cymorth Cristnogol Undebol yn y capel am 2.00.

## Cyhoeddiadau

### Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 6<sup>ed</sup> ➤ Bydd Mr Dafydd Timothy yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.  
➤ Ni fydd oedfa yn Nantglyn.
- Mercher – 9<sup>fed</sup> ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion Jones (870656) **HEDDIW (6<sup>ed</sup>)**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 13<sup>eg</sup> ➤ Cynhelir Oedfa Undebol Cymorth Cristnogol yn Eglwys Sant Sannan am 11.00. Ni fydd Ysgol Sul.  
➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi Teuluol yn Nantglyn am 2.00.

### Saron a Pheniel

- Sul yma – 6<sup>ed</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00 a bydd Ysgol Sul yno am 2.00.
- Mawrth – 8<sup>fed</sup> ➤ Cynhelir Clwb Ysgol Sul Saron yn Ffestri'r Capel am 3.15.
- Sul nesaf – 13<sup>eg</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 6<sup>ed</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg.
- Sul nesaf – 13<sup>eg</sup> ➤ Cynhelir Gwasanaeth Undebol Cymorth Cristnogol yng Nghapel Llanefydd am 10.00. Croeso cynnes i bawb.

### Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291  
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎ 01745 582644 📞 07849 591163  
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536  
*Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.*

### Eglwys Bro Aled

**Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.**

### Darlleniad Wythnos Nesaf

*Jwdas 24-25 (BCND tud.270 / BCN tud.248)*